

Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth gyffredinol y gall colegau / gwasanaethau ei chwblhau a'i throsglwyddo i unrhyw unigolyn y nodir bod angen cymorth arnynt i adael adeilad mewn argyfwng.

SYLWER: Os bydd y larwm yn canu ac nad yw'r unigolyn yn gallu gadael yr adeilad, mae'n bwysig bod aelod staff yn cymryd y cyfrifoldeb o nodi lleoliad yr unigolyn, gan hysbysu Tîm Diogelwch y brifysgol am hyn yn brydlon wrth wagio'r adeilad.

Os bydd y larwm yn canu:

1. Ewch allan o'r adeilad bob tro.
2. Peidiwch byth â defnyddio'r lifft.
3. Arhoswch ar y llawr (gall rhywun aros gyda chi).
4. Ewch i'r **man aros diogel** ar y llawr hwnnw (tudalen nesaf systemau gwahanol).



Adeilad	Llawr	Lleoliad y Man Aros Diogel

5. Ewch i'r man aros diogel i gyfathrebu â Thîm Diogelwch y brifysgol a fydd yn cysylltu ag eraill ar unwaith yn ôl yr angen.
6. Arhoswch yn y man aros diogel am y staff diogelwch neu'r gwasanaethau brys.
7. Dilynwch gyfarwyddiadau'r staff diogelwch a'r gwasanaethau brys.

OS NAD OES MAN AROS DIOGEL AR GAEL – dylai'r unigolyn:

8. Aros mewn lleoliad y cytunwyd arno gyda chydweithwyr.
9. Cadarnhau bod yr unigolyn yn gwybod bod rhaid dweud wrth y Tîm Diogelwch am ei leoliad ar ôl gadael yr adeilad.
10. Fel arall, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Tîm Diogelwch: **01248 38 2795 / 01248 38 3472 / 01248 38 8041.**

PEIDIWCH Â CHYNHYRFU:

- Y rhan fwyaf o'r amser pan fo'r larwm yn canu nid oes tân.
- Bydd staff diogelwch neu'r Gwasanaethau Brys yn dod i'r safle'n brydlon.
- Mae'r mannau aros diogel, a'r drysau'n gyffredinol, wedi eu cynllunio i atal tân am o leiaf hanner awr er mwyn i'r Gwasanaethau Brys allu dod i'ch achub os oes angen.

Gwahanol fathau o fannau aros ar draws y brifysgol yw'r canlynol. Dim ond mewn adeiladau gyda lifftiau y ceir mannau aros diogel rhag ofn na fydd rhywun yn gallu mynd i lawr neu i fyny'r grisiau i adael yr adeilad, ac yn defnyddio'r lifft i symud o gwmpas yr adeilad fel arfer.

Mae'r mannau aros diogel ger y lifft yn aml, neu o dan y grisiau ger y lifft. Mae'r mwyafrif yn cysylltu â Thîm Diogelwch y brifysgol. Mae'r ddogfen [Mynd o Gwmpas Bangor](#) yn esbonio ble mae'r mannau aros yn y gwahanol adeiladau (ac eithrio'r neuaddau).

Dylai'r arwyddion cyfagos roi gwybod i chi ble rydych chi yn yr adeilad.

